

GWASANAETH ARCHIFAU SIR DDINBYCH

POLISI CASGLU

1. Cefndir

- 1.1 Awdurdod llywodraeth leol ydi Cyngor Sir Ddinbych sy'n gweinyddu ardal sy'n cynnwys rhannau o gyn siroedd Dinbych, Fflint a Meirionnydd a daeth i fodolaeth ar Ebrill 1, 1996. O ganlyniad i'w polisïau casglu blaenorol, mae rhai cofnodion sy'n ymwneud â'r sir bresennol yng ngofal gwasanaethau archifau cynddogol.
- 1.2 Yn unol â'r cynllun ar gyfer darparu Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych dan ofynion Adran 60 y ddeddf uchod, mae Cyngor Sir Ddinbych yn cytuno i weinyddu Archifdy Rhuthun ac i fod yn gyfrifol am warchod ei chasgliadau presennol.
- 1.3 Pennir Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych gan yr Arglwydd Ganghellor yn ystorfa ar gyfer cofnodion cyhoeddus a adneuwyd yn lleol dan adran 4(1) Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. Fe'i cydnabyddir gan Gorff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru'n ystorfa ar gyfer cofnodion plwyfol o fewn yr ardal a ddiffinnir gan ei chytundeb â Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych.
- 1.4 Bydd Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yn cadw at ddeddfwriaeth archifau cyfredol yn cynnwys Deddf (Cofnodion) Llywodraeth Leol, 1962, Deddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Diogelu Data, 1998, a Deddf Rhyddid Gwybodaeth, 2000.

2. Cyffredinol

- 2.1 Mae'r datganiad polisi casglu yma'n diffinio un o brif amcanion Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych a dylid ei ystyried yn gysylltiedig â datganiad nodau ac amcanion yr Archifdy a'i gynllun busnes gwasanaeth cyfredol.
- 2.2 Dylid ystyried y polisi hefyd yn gysylltiedig ag amodau adneuo'r Gwasanaeth, cytundeb yr adneuw'r ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill. Mae Archifdy Sir Ddinbych wedi mabwysiadu Safon Ystorfeydd Cofnodion yr Archifau Cenedlaethol.
- 2.3 Fe adolygir y polisi hwn bob pum mlynedd.

3. Ardaloedd o ddiddordeb

- 3.1 Mae'n bolisi gan y Gwasanaeth Archifau i beidio â cheisio na derbyn deunydd sy'n ymwneud ag ardaloedd y tu allan i ffiniau'r awdurdod presennol, gyda'r eithriadau canlynol:
 - Pan fydd yr archif yn ymwneud yn bennaf â Sir Ddinbych ac mae cyfanwydd grŵp archif yn atal ei rhaniad. Mewn achos felly fe ymgynghorir ag ystorfeydd eraill.
 - Mewn amgylchiadau eithriadol gellir derbyn deunydd felly ar daerineb y perchennog, ac mewn ymgynghoriad ag unrhyw ystorfa neu ystorfeydd perthnasol eraill.
 - Fe wnaiff y gwasanaeth archifau dderbyn deunydd dogfennol sy'n ychwanegu at gasgliadau presennol penodedig sydd eisoes yn ei ofal.
- 3.2 Fe gesglir y deunydd canlynol:
 - Cofnodion cyhoeddus dan delerau Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958; cofnodion maenrol a degwm dan y mesurau perthnasol.
 - Cofnodion awdurdodau llywodraeth leol rhagflaenol i'r Cyngor Sir Ddinbych presennol dan delerau Deddf Llywodraeth Leol 1972.
 - Cofnodion plwyf sy'n ymwneud â'r ardal sydd wedi ei diffinio gan y cytundeb cyfredol rhwng Corff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru ac awdurdodau lleol Cymreig.

- Cofnodion sy'n ymwneud â hanes ardal y sir bresennol yn unig (ac eithrio yn yr amgylchiadau a amlinellir uchod) dan delerau Deddf (Cofnodion) Llywodraeth Leol 1962 a Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

4. Cwmpas

- 4.1 Fe wnaiff Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych gaffael deunydd dogfennol drwy rodd, adnau neu bryniant i hyrwyddo ei nodau (gweler hefyd amodau adneuo).
- 4.2 Mae'r gwasanaeth yn derbyn y diffiniad o archifau a roddir ym Mholisi Archifau ar gyfer y Deyrnas Unedig 1996 gan y Cyngor Cenedlaethol ar Archifau. Deellir fod archifau'n cynnwys dogfennau llawysgrif a dogfennau printiedig a chofnodion a ddelir mewn fformatau digidol a fformatau sy'n ddarllenadwy â pheiriant. Mae hefyd yn casglu deunydd ffotograffig, papurau newydd a phrintiau topograffig a deunydd printiedig arall ac fe wnaiff brynu deunydd perthnasol ar ficroffilm a deunydd digidol ar gyfer ymgynghori â chleientiaid, o fewn ei faes diddordeb. Bydd yn derbyn copïau o ddeunydd sain a ffilm ond bydd yn cyfeirio at Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru pan fydd hynny'n briodol.
- 4.3 Fe gesglir gwaith cyhoeddedig sy'n ategu'r casgliadau llawysgrifau hefyd, a chopïau a chatalogau deunydd perthnasol a gedwir mewn man arall.
- 4.4 Fe wnaiff y gwasanaeth gysylltu â gwasanaeth astudiaethau lleol Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Sir Ddinbych i osgoi dyblygu deunydd cyhoeddedig yn ddiangen.
- 4.5 Fe wnaiff gysylltu â storfeydd a gwasanaethau archif eraill i sicrhau na fydd yna wrthdaro buddiannau casglu.
- 4.6 Fe wnaiff yr Uwch Archifydd sicrhau, cyn belled ag sydd bosib, yr hawl i unrhyw ddeunydd dogfennol a drosglwyddir i warchodaeth Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych, a'u tarddiad.

- 4.7 Ar wahân i ddogfennau statudol-waharddedig, fe wnaiff y gwasanaeth roi deunydd ar gael i'r cyhoedd ei ddefnyddio gyn gynted ag sydd bosib ar ôl ei adneuo.
- 4.8 Ni wnaiff Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych gasglu-
- Deunydd sydd ddim o unrhyw ddiddordeb neu arwyddocâd hanesyddol, ac fe wnaiff waredu unrhyw ddeunydd felly â chaniatâd y perchennog.
 - Arteffactau tri dimensiwn, oni bai eu bod yn anhepgor i'r casgliad dogfennol y maen nhw'n gysylltiedig ag o, ac felly fe gân nhw eu storio a'u cadw'n briodol mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Treftadaeth Cyngor Sir Ddinbych.
 - Unrhyw ddeunydd nad yw o fewn adnoddau'r gwasanaeth i'w catalogio, eu diogelu a'u storio'n unol â Safonau Comisiwn Llawysgrifau Hanesyddol ar gyfer Storfeydd Cofnodion (1992).

5. Gwaredu

Mae'r gwasanaeth yn arddel yr hawl i wneud adolygiadau o archifau sydd yn ei gystodaeth a gall gymeradwyo eu trosglwyddo, eu gwaredu neu eu dinistrio cyn belled â bod hynny'n cydymffurfio â'i nodau ac amcanion a bod pob cydsyniad perthnasol wedi ei gael.